Cymhorthion, Offer ac Addasiadau

Cyflwyniad

Gall rhai cymhorthion, offer a/neu addasiadau weithiau ei gwneud hi'n haws i ofalu am blentyn anabl. Yn hanes rhai teuluoedd, mae meddu ar yr offer iawn hefyd yn fodd i gryfhau gallu eich plentyn i fod yn fwy annibynol a helpu'r broses o addasu i fod yn oedolyn

Mae rhai eitemau megis cymhorthion symudedd neu wlâu arbenig yn ddrud ac mae'r ystod sydd ar gael yn helaeth iawn. Ar y daflen hon cewch wybodaeth ynghylch sut i gael gafael ar yr offer a ble i fynd am ragor o wybodaeth. Dylai teuluoedd yn yr Alban nodi bod Llywodraeth yr Alban wedi sefydlu'r Fforwm Strategaeth: Offer ac Addasiadau er mwyn edrych ar ddarpariaeth cymorthyddion ac addasiadau yn yr Alban.

Mae adroddiad y Fforwm Strategaeth " Arfogi ar gyfer Cymhwysedd" yn cynrychioli'r cyngor a roddwyd i lywodraeth yr Alban wedi'r adolygiad ac mae'n cynnwys eu hargymhellion ar gyfer newidiadau a gwelliannau.

Am ragor o wybodaeth ewch at wefan Llywodraeth yr Alban:
Web: http://www.scotland.gov.uk/Topics/Health/care/
JointFuture/equipmentandadaptations

Pwy sy'n darparu offer?

Trwy gydol y daflen ffeithiau hon, cyfeiriwn at yr "Awdurdod Iechyd." Yn eich ardal chi, mae'n bosib mai'r enw ar gorff o'r fath yw'r Ymddiriedolaeth Gofal neu'r Bwrdd Gwasanaethau Cymdeithasol/ Ymdiriedolaeth os ydach yn byw yng Ngogledd Iwerddon.

Mae eich awdurdod iechyd lleol a'ch adran gwasanaethau cymdeithasdol lleol ill dau yn darparu cymhorthion ac offer ar gyfer pobl anabl

O dan adran 2 o'r Ddeddf Personau Sal ac Anabl Iawn 1970(Lloegr a Chymru) a'r ddeddfwriaeth gyfatebol ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae gan awdurdod lleol *ddyletswydd* I ddarparu *cymorth ymarferol* ac *adnoddau ychwanegol ar gyfer sicrhau mwy o ddiogelwch, cysur a hwylustod* i'r bobl hynny sydd eu hangen yn ôl yr asesiad a wnaed. Golyga hyn yn aml darparu offer yn ogystal â ffyrdd eraill o gynnig cymorth ymarferol. Yn eich ardal chi. mae'n bosib bod cytundeb lleol sy'n esbonio pwy sy'n gyfrifol am wahanol fathau o o offer.

Yn Lloegr, mae'n bosib dod o hyd i'r Gwasanaeth Offer Cymunedol(CES) sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan adrannau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol lleol. Dyma fenter ar draws iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn datblygu gwasanaethau offer cymunedol. Gallwch gael hyd i fwy o wybodaeth am y fenter hon ar wefan yr Adran Iechyd
Web: http://www.icesdoh.org/about.asp

Dylai teuloedd yn Lloegr nodi hefyd nad oes modd i awdurdod lleol godi ffi am rai cymhorthion ac offer a ddarperir ganddynt. Mae'r rhain yn cynnwys offer ar gyfer bywyd dyddiol megis cadair gawod a mân addasdiadau yn costio £1,000 neu lai. Dylai teuluoedd ym mhob rhan o'r DU hefyd

fod yn ymwybodol y gellid defnyddio Taliadau Uniongyrchol er mwyn archebu offer. Yn gyffredinol, gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am ddarparu offer ar gyfer byw pob dydd ac anghenion nad ydynt yn rhai meddygol, a'r awdurdod iechyd sydd wedyn yn gyfrifol am ddarparu offer ar gyfer ateb gofynion nyrsio neu feddygol. Ar ben hynny, gall offer i helpu plentyn gyrchu cwricwlwm gael ei drefnu gan ysgol neu awdurdod addysg lleol. Mae gwybodaeth am y mathau hyn o ddarpariaeth ar y daflen hon, yn ogystal â gwybodaeth am offer ar gyfer chwarae a hamdden, offer ail law, ffynonellau cymorth ariannol. Ad-daliad TAW ar offer, help o ran addasu eich cartref a rhagor o ffynonellau ar gyfer help a chyngor.

Gwasanaethau Cymdeithasol

Fel rheol, cyfrifoldeb y gwasanaethau cymdeithasol(yr Adran Gwaith Cymdeithasol yn yr Alban neu'r Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon) yw unrhyw offer sydd ei angen ar gyfer hybu annibyniaeth neu ateb unrhyw anghenion gofal cymdeithasol.
Mae hyn yn cynnwys helpu gyda threfnu addasiadau i'r cartref neu unrhyw adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer creu mwy o ddiogelwch, cysur neu hwylustod. Gall hyn arwain at ddarparu cymhorthion ac offer i helpu efo chodi a throsglwyddo, gofal personol, bwyta, cymryd bath a golchi. Mae offer yn cael ei ddarparu fel rheol ar sail benthyciad tymor hir.

Pwy i gysylltu â nhw

Yn y lle cyntaf, dylech gysylltu â'ch gweithiwr cymdeithasol os oes gennych weithiwr o'r fath neu gysylltu â'ch doctor teulu a dweud wrthynt am y math o help yr ydach yn edrych amdano. Gallwch hefyd fynd ar ofyn gweithwyr iechyd proffesiynol eraill megis y nyrs ranbarthol, y ffisiotherapydd neu nyrs ysgol,

Asesu eich anghenion chi ac anghenion eich plentyn

Bydd Therapydd Galwedigaethol (OT) neu Weithiwr Cymdeithasol fel arfer yn ymweld â chi yn eich cartref i drafod y sefyllfa a chynnal yr asesiad. Person proffesiynol yw TG sy'n gallu cynghori ynghylch offer ar gyfer byw pob dydd ac ymdopi'n well yn y cartref. Pan gewch ymweliad gan yr TG neu'r Gweithiwr Cymdeithasol, mae'n bwysig iawn bod eich anghenion chi fel gofalwr ac anghenion aelodau eraill o'r teulu yn cael eu hystyried. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw bryderon iechyd a diogelwch. Os ydi eich plentyn hefyd angen offer i'w helpu gydag anghenion meddygol neu anghenion iechyd yna bydd asesiad ar y cyd yn cael ei gynnal. Ac fe all y gweithiwr cymdeithasol neu'r OT gysylltu â'r gwasaneth nyrsio cymunedol neu eich doctor teulu.

Pan fo angen yn cael ei ddynodi, bydd rhaid i'r Gweithiwr Cymdeithasol neu'r OT ystyried ffyrdd o ateb y gofyn hwnnw. Gallai hyn gynnwys cyngor ymarferol o ran gwneud pethau'n wahanol er mwyn gwneud pethau'n haws, darparu cymhorthion ac offer a/neu drefnu addasiadau i'r ty(gweler yr adran "Addasu eich cartref" ar dudalen 8)

Cyflwyno Cŵyn

Os ydach chi'n anhapus gyda chanlyniad yr asesiad, yna gallwch gyflwyno cŵyn gan ddefnyddio gweithdrefn gwyno'r Awdurdod Lleol. Wrth wneud cŵyn, gall fod yn ddefnyddiol i dderbyn cymorth gan sefydliadau anabledd neu ofalu. Gall Llinell Gymorth Cyswllt Teulu ddarparu rhagor o gyngor a rhoi gwybod I chi am unrhyw sefydlaidau lleol all gynnig mwy o help.

.Mae taflen ffeithiau Cyswllt Teulu am Asesiadau a Gwasanaethau yn cynnwys rhagor o gyngor ynghylch cyflwyno cŵyn.

Iechyd

Fel rheol cyfrifoldeb yr awdurod iechyd lleol yw cymhorthion ac offer ar gyfer darparu nyrsio a gofal meddygol yn y cartref. Gellid cyflenwi offer drwy'r GIC ar sail benthyciad rhad ac am ddim gyda rhai eitemau yn cael eu pennu gan y doctor neu ymgynghorydd. Gall hyn gynnwys gwlâu arbennig ac offer gwely, hoists, cymhorthion gwlychu, cymhorthion bwydo a chymhorthion clyw.

.

Cwynion

Os oes elfen o'r ddarpariaeth iechyd yr ydach chi'n anhapus amdano, yna dylech godi'r mater efo'r person sy'n gyfrifol. Gall teuluoedd yn Lloegr hefyd ofyn i'w Gwasanaeth Eirioli a Chydlynu Cleifion lleol (PALS). Gall Cynghorau iechyd Cymuned yng Nghymru hefyd gynnig cefnogaeth ac arweiniad ynghylch cyflwyno cŵyn. Gall teuloedd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon gyflwyno cŵyn gyda help eu cyngor iechyd lleol neu adran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol eu cyngor lleol. Edrychwch ar ein cyfeiriadur ffôn am fanylion cyswllt.

Clywed

Gall eich doctor eich cyferio at awdiolegydd am archwiliad a phrawf clywed. Os oes angen cymhorthydd clyw cewch eich cyferio wedyn at adran cymhorthion clyw ble caiff dyfais ei gyflenwi a'i osod. Mae cymorthyddion clyw GIC yn cael eu trin, eu cynnal a'u cyflenwi gyda batris yn rhad ac am ddim. Gellid hefyd archebu cymhorthion clyw yn breifat. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Cymdeithas Plant Byddar,
15 Dufferin Street, Llundain, EC1Y 8UR
Ffôn: 0808 800 8880 Llinell Gymorth am ddim (Llu-Gwe,10am-
5pm) Testun: 0808 800 8880
e-bost helpline@ndcs.org.uk
Gwefan: http://www.ndcs.org.uk
Llinell Gymorth RNID , 19-23 Featherstone Street,
Llundain, EC1Y 8SL Ffôn: 0808 808 0123 Testun: 0808 808 9000
e-bost: informationline@rnid.org.uk
Gwefan: http://www.rnid.org.uk

Problemau Golwg

Gellid cael cymhorthion ar gyfer golwg megis chwyddwydrau ar gyfer dwylo a sefyll o dan y GIC drwy Wasanaeth llygaid yr ysbyty, ynghyd â theclynnau mwy cymhleth. Gall y sefydliadau canlynol ddarparu mwy o wybodaeth am gymhorthion ar gyfer plant gydag anawsterau gweld.

Sefydliad Brenhinol y Deillion(RNIB) 105 Judd Street, Llundain, WC1H 9NE
Tel: 0845 766 9999 Helpline
e-bost: helpline@rnib.org.uk
gwefan: http://www.rnib.org.uk
Vision Aid, 106 Junction Road, Deane,
Bolton, BL3 4NE Tel: 01204 64265
e-bost: visionaiduk@aol.com
Gall Vision Aid fenthyca teganau, offer technegol ac offer hybu'r golwg ar gyfer plant a myfyrwr sydd wedi eu cofrestru'n ddall ac yn rhannol ddall

Cyfathrebu

Dylid trafod unrhyw bryderon o ran anghenion cyfathrebu eich plant gyda therapydd iaith a lleferydd. Gallwch un ai gysylltu â'r therapydd yn uniongyrchol neu ofyn i'ch doctor teulu i'ch cyfeirio. Fel rheol, mae therapyddion wedi'u lleoli mewn ysbytai neu glinigau yn y gymuned. Yn dilyn asesiad o anghenion eich plentyn, gall y therapydd roi benthyg yr offer angenrheidiol.

Noder fodd bynnag bod therapi iaith a lleferydd ar gyfer plant yn aml yn cael ei ystyried yn ddarparaieth addysgol.Golyga hyn y gall yr arian am ddarprariaeth fel hyn gael ei ddarparu neu ei ariannu gan Awdurdod Addysg Lleol (AALL) yn ogystal ag ymddiriedolaeth iechyd. Dylid dynodi darpariaeth o'r fath yn natganiad anghenion addysgol eich plentyn neu gofnod o anghenion os ydach yn byw yn yr Alban. Gall rhieni hefyd ymweld â'u canolfan cymorth cyfathrebol lleol ar gyfer mwy o wybodaeth. Dylai'r therapydd neu'r gweithiwr cymdeithasol allu dwedu ble mae'r ganolfan agosaf atoch chi. Gall y sefydliadau canlynol hefyd ddarparu rhagor o wybodaeth:

Afasic, 2nd Floor, 50-52 Great Sutton Street,
Llundain, EC1V 0DJ Tel: 0845 355 5577 Helpline
e-bost: info@afasic.org.uk Gwefan: http://www.afasic.org.uk
I CAN, 4 Dyer's Buildings, Holborn, London, EC1N 2QP
Ffôn: 0845 225 4071 e-bost: info@ican.org.uk
Gwefan: http://www.ican.org.uk
Aidis Trust, First Floor, 54 Commercial Street, London,
E1 6LT Tel: 020 7426 2130 e-bost: info@aidis.org
Gwefan: http://www.aidis.org
Nod Ymddiriedolaeth Aidis yw daroparu offer cyfathrebu arbenigol yn seiliedig ar gyfrifiaduron.
The Sequal Trust, 3 Ploughmans Corner, Wharf Road,
Ellesmere, SY12 0EJ Tel: 01691 624 222
Gwefan: http://www.the-sequal-trust.org.uk

Gwlychu

Gellid derbyn cyngor ar faterion gwlychu gan ymwelwyr iechyd, nyrsus ardal neu weithwyr cymdeithasol. Bydd gan y rhan fwyaf o awdurdodau iechyd ymgynghorydd gwlychu all ddarparu cymorth a chyngor arbenigol. Unwaith mae eich plentyn dros drothwy babandod, gall eich awdurdod iechyd lleol ddarparu cymhorthion gwlychu cyn belled â bod y broblem wlychu codi o anabledd. Rhaid nodi fodd bynnag fe allwch wynebu cost am hyn gan ddibynnu ar eich lleoliad. Gall cymhorthion megis cynfasau amddiffyn gwely, napis i'w taflu, catheters, tronsus a theclynnau rheoli arogl gael eu darparu gan yr awdurod iechyd neu fe ellid eu pwrcasu'n breifat.

Gellid derbyn mwy o help hefyd gyda chostau dŵr. Os ydi eich cyflenwad dŵr wedi'i osod ar feter yna fe ellid gosod cap ar eich bil. Dylech gysylltu â'r llinell gymorth am ragor o gyngor. Ffynhonnell arall o gymorth i deukluoedd sy'n delio â phroblemau gwlychu ydi'r gwasanaeth golchi dillad, er nad ydi pob awdurdod lleol yn cynnig hwn. Ble fo hwn ar gael mae wedi'i gysylltu â'r gwasanaeth cymorth cartref yr adran gwasanaethau cymdeithasol. Mewn ardaloedd eraill y GIC sy'n ei weithredu. Gall teuluoedd gyda phlant anabl iawn geisio am help gyda'u golch, megis peiriant golchi o'r Gronfa Deuluol. Gweler "cymorth ariannol" (tudalen 6). Mae'r sefydliadau dilynol yn darparu rhagor o wybodaeth a chyngor ymarferol ar faterion gwlychu:

Education and Resources for improving Childhood Continence (ERIC),
34 Old School House, Britannia Road, Kingswood,
Bryste, BS15 8DB Ffôn: 0117 960 3060
e-bost: info@eric.org.uk
Gwefan: http://www.eric.org.uk

Continence Foundation, 307 Hatton Square,
16 Baldwins Gardens, Llundain, EC1N 7RJ
Ffôn 0845 345 0165
e-bost: continence.foundation@dial.pipex.com
Gwefan: http://www.continence-foundation.org.uk

Gwybodaeth am wasanaethau iechyd lleol:
Gogledd Iwerddon - Gwefan: http://www.n-i.nhs.uk
Yr Alban - Gwefan: http://www.show.scot.nhs.uk
Lloegr - Gwefan: http://www.nhs.uk
Cymru - Web: http://www.wales.nhs.uk

Symudedd

Os oes gennych unrhyw bryderon am symudedd eich plentyn, dylid trafod hyn gyntaf oll efo'r doctor all wedyn ei gyfeirio at y ffisiotherapydd yn eich ysbyty leol. Yno caiff anghenion symudedd eich plentyn eu hasesu. Mae'n bosib benthyca cymorthyddion cedded sylfaenol gan yr ysbyty leol neu'r gwasaneth iechyd cymunedol fel arfer yn dilyn argymhelliad gan y ffisiotherapydd.

Gwasanaeth cadair olwyn eich GIC lleol fyddai'n asesu oes angen darparu cadair olwyn(wdi ei bweru, wedi ei bweru gyda chymhorthydd neu gadair gyda llaw) a darparu'r gadair honno

Yn Nghymru, y Gwasanaeth Aelod a Theclynnau Artiffisial (ALAS) sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth cadair olwyn. Gall y gwasanaeth cadair olwyn hefyd ddarparu bygis ar gyfer plant.

Dylai'r gwasanaeth eich helpu i ddewis y gadair olwyn sy'n ateb gofynion eich plentyn orau. Byddai hyn yn cynnwys elfennau ychwanegol megis clustogau, man gorffwys braich neu hambyrddau. Dylai eich doctor, eich canolfan iehcyd leol, ffisiotherapydd neu therapydd galwedigaethol allu dweud wrthych chi ble mae eich gwasanaeth cadair olwyn lleol. Gall teuluoedd yng Nghymru a Lloegr ffonio GIC Uniongyrchol ar 0845 4647; ac yn yr Alban, dylai teuluoedd ffonio GIC Uniongyrchol ar 0845 4 24 24 24

Caiff cadair olwyn ei ddarparu i unrhyw unigolyn sydd ag angen parhaol am gadair. Bydd y gwasanaeth hefyd yn gyfifol am ei gynnal, cyn belled ag nad yw'r problemau'n cael eu hachosi gan gam-defnydd neu esgeulustod. Dylech dderbyn rhif ar gyfer trwsiwr lleol sydd wedi'i gymeradwyo fydd wedyn yn gyfrifol am unrhyw atgyweiriadau.

O ran egwyddor, gall unrhyw gadair olwyn gael ei gyflenwi gan y wasanaeth cadair olwyn GIC. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynu ar feini prawf lleol, yr adnoddau sydd ar gael ac amgylchiadau'r unigolyn. Yn yr Alban, mae meini prawf cenedlaethol ar gyfer darparu cadeiriau olwyn wedi'u pweru.

Fel rheol mae'n rhaid ichi brynu cadeiriau olwyn trydanol ar gyfer y tu allan, sgwters neu cadeiriau chwaraeon arbenigol. Os ydach chi'n anfodlon â'r dewis sydd ar gael ac am gael rhywbeth ar wahan i gadair safonol, yna efallai y gallwch ystyried y cynllun talebau ar gyfer cadair olwyn(Lloegr yn unig). Mae'r cynllun hwn yn caniatau ichi dalu'r gwahaniaeth rhwng costau cadair olwyn gyda llaw elfennol gaiff ei ddarparu gan y gwasanaeth cadair olwyn a chadair olwyn drutach o'ch dewis chi. Mae modd derbyn mwy o wybodaeth am gadeiriau olwyn drwy gysylltu â:

:

Whizz-Kidz, Elliot House, 10-12 Allington Road, Llundain,
SW1E 5EH Ffôn 0207 233 6600
e-bost: info@whizz-kidz.org.uk
Gwefan: http://www.whizz-kidz.org.uk
Gall Whizz-Kidz ddarparu offer symudedd wedi'i deilwrio ar gyfer pobl ifanc hyd at 18 oed nad ydynt ar gael gan y GIC.
Cymdeithas Plant Mewn Cadeiriau Olwyn,
6 Woodman Parade, North Woolwich, Llundain, E16 2LL
Ffôn: 0870 121 0050
e-bost: headoffice@wheelchairchildren.org.uk
Gwefan: http://www.wheelchairchildren.org.uk
Yn cynnig hyffordiant a chyngor o ran defnyddio cadeiriau olwyn

Os ydi eich plentyn yn derbyn y gyfradd uchel o'r elfen symudedd Lwfans Byw Anabl ac fod ganddynt o leiaf 12 mis o'r dyfarniad yn weddill, yna gallwch ymuno â'r Cynllun Motability. Mae'r cynllun yn gallu helpu pobl anabl i logi neu brynu car neu gadair olwyn wedi'i bweru neu fygi. Enw newydd y cynllun bellach ydi "Route2mobility". Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Motability, City Gate, 22 Southwark Bridge Road,
Llundain, SE1 9HB Ffôn: 0845 456 4566
Gwefan: http://www.motability.co.uk
Mobility Information Service, 20 Burton Close, Dawley,
Telford, TF4 2BX Ffôn: 01743 340 269
e-bost: mis@nmcuk.freeserve.co.uk
gwefan: http://www.mis.org.uk
MAVIS – (Mobility Advice and Vehicle Information Service), Crowthorne Business Estate, Old Wokingham Road, Crowthorne, Berkshire, RG45 6XD
Ffon: 01344 661000
e-bost: mavis@dft.gsi.gov.uk
Gwefan: http://www.dft.gov.uk/access/mavis
Just Mobility, Unit 3, Ballybot House, Cornmarket,
Newry BT35 8BG Ffôn: 028 3026 8181
Gwefan: http://www.just-mobility.co.uk
Northern Ireland Mobility Centre,
Portside Business Park, 189 Airport Road West, Belfast
BT3 9ED Ffôn: 028 9029 7880
e-mail: hq@disabilityaction.org
Gwefan: http://www.disabilityaction.org
Scottish Driving Assessment Service, Mobility Centre,
Astley Ainslie Centre, 133 Grange Loan, Edinburgh
EH9 2HL Ffôn: 0131 537 9192

Bydd y sawl sy'n hawlio'r gyfradd uchaf o elfen symudedd y DLA hefyd yn gymwys i gael eu heithrio rhag Treth Car ac hefyd yn gymwys ar gyfer y Bathodyn Glas sy'n caniatau i'r deilydd i barcio mewn mannau penodol. Gallwch gael hyd i fwy o wybodaeth yn nhaflen ffeithiau Cyswllt Teulu "*Budd-daliadau, Credydau Treth a chymorth ariannol eraill"*

.

Addysg

Gall cymhorthion sy'n gysylltiedig ag addysg gael eu cyflenwi gan awdurdodau addysg neu gan yr ysgolion eu hunain ar gyfer eu defnyddio mewn ysgolion a cholegau. Gall yr ysgol drefnu i therapydd galwedigaethol asesu eich plentyn ac mae'n bosib y gall ddarparu cymhorthion i'w defnyddio yn y cartref a'r ysgol. Cysylltwch âr pennaeth am ragor o wybodaeth.

Os oes gan eich plentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, yna dylai'r manylion ynghylch yr union offer i helpu eich plentyn yn yr ysgol gael ei gynnwys. Os oes gennych bryderon am anghenion eich plentyn, yna dylech godi'r rhain efo'r ysgol.

Yn yr Alban, dylai cofnod anghenion plentyn gynnwys unrhyw offer sydd ei angen i ateb gofynion addysgol y plentyn. Os ydach yn anfodlon efo telerau'r Cofnod.yna gallwch apelio at y Pwyllgor Apelidadu lleol. Mae'r system addysg yn yr Alban yn cael ei weddnewid ar hyn o bryd. Mae'r hen system Cofnodi Anghenion, a gafodd ei sefydlu yn 1981 yn cael ei ddisodli gan fod Senedd yr Alban wedi pasio Deddf Addysg yr Albnan(Cymorth Ychwanegol ar gyfer dysgu). Yng Ngogledd Iwerddon, mae deddfwriaeth ddiweddar sef y Gorchymyn Anghenion Addysgol ac Anabledd (Gogledd Iwerddon) yn cynyddu hawliau plant gyda anghenion addysgol arbennig.

Mae tafleni ffeithiau Cyswllt teulu ynghylch Anghenion Addysgol Arbennig ar gyfer Cymru, LLoegr a'r Alban yn cynnwys rhagor o gyngor am eich hawliau ac yn rhestru mudiadau pwrpasol eraillll all gynnig help. Gall teuluoedd yng Ngogledd Iwerddon gael hyd i ragor o gyngor ar y wefan:
Web: http://www.deni.gov.uk

Fel y soniwyd ynghynt, ystyrir therapi iaith a lleferydd ar gyfer plant fel darpariaeth addysgol yn aml. Gall rhieni hefyd gyfeirio at yr adran "Cyfathrebu" (tudalen 3 o'r daflen ffeithiau hon).

Addysg bellach ac addysg uwch

Gall cymorth ychwanegol hefyd fod ar gael ar gyfer pobl ifanc anabl sy'n dilyn cyrsiau mewn addysg bellach neu addysg uwch. Gallai hyn fod ar ffurf cymorthyddion arbenigiol neu offer neu lwfansau i helpu dalu am offer neu gymorth ymarferol. Bydd angen cynnal asesiad arbennig er mwyn penderfynu pa help sydd ei angen.

Gall y Biwro Sgiliau Cenedlaethol ar gyfer Myfyrwyr Anabl ddarparu mwy o wybodaeth a chyngor. Maen nhw'n cynhyrchu ystod o lyfrynnau gwybodaeth gan gynnwys y daflen wybodaeth " *Offer Arbenigol: ffynonellau help a chyngor.".* Mae hwn yn rhestru'r offer sydd ar gael (ynghyd ag amlinelliad o'r prisiau), sefydliadau sy'n darparu asesiadau neu gyngor a ffynonellau o gymorth ariannol.

Sgil – Biwro Cenedlaethol ar gyfer Myfyrwyr Anabl ,
Chapter House, 18 – 20 Crucifix Lane, Llundain SE1 3JW
Ffon: 020 7450 0620 Tel: 0800 328 5050 Gwasaneth Gwybodaeth
(Tues 11.30-1.30 & Thurs 1.30-3.30)
Gwefan: http://www.skill.org.uk

Chwarae a Hamdden

Mae gan bob plentyn, gan gynnwys plant anabl, yr hawl i gael hwyl a chymryd rhan mewn gweithgareddau adloniadol. Mae hyn yn bwysig iawn gan fod chwarae yn ran mor bwysig yn natblygiad plentyn. Gall chwarae helpu datblygu sgiliau siarad, sgiliau synhwyrau, dychymyg, annibyniaeth a sgiliau cymdeithasol. Gall teganau a chwarae fod yn weithgareddau hwyliog, yn ogystal â bod yn weithgareddau addysgol a therapiwtig. Mae'n hanfodol bod plant, beth bynnag fo'u galluoedd, yn cael y cyfle i chwarae a chael mynediad at adnoddau hamdden.

Am ragor o wybodaeth a chyngor ar deganau addas, gallwch siarad efo therapydd galwedigaethol pediatreg. Drwy weithgaredd a chwarae, mae'r therapydd pediatreg galwedigaethol yn gweithio gyda phlant er mwyn eu helpu i ymgyrraedd at y safon uchaf posib o ansawdd bywyd. Gall y therapydd dan sylw weithio mewn amrediad o leoliadau gan gynnwys y GIC, gwasanaethau cymdeithasol neu sefydliadau addysgol neu elusennol.

Mae'n bosib hefyd bod cynllun chwarae neu grwp cefnogi rhieni yn eich ardal a bod modd cyfnewid teganau a syniadau efo aelodau'r grwp. Cysylltwch â'n llinell gymorth am wybodaeth leol. Mae nifer o gyflenwyr arbenigol a masnachol, ac fe restrir rhai o'r rhain o dan "Cyflenwyr Masnachol" (Tudalen 7). Gan fod cymaint ohonynt, mae'n bwysig bod rhieni'n derbyn y cyngor cywir er mwyn sicrhau gwerth am arian. Gall y sefydliadau canlynol ddarparu gwybodaeth arbenigol pellach:

Cymdeithgas Genedlaethol Llyfrgfelloedd Teganau a Hamdden,
68 Churchway, Llundain, NW1 1LT Ffôn: 020 7255 4616
e-bost: admin@playmatters.co.uk
Gwefan: http://www.natll.org.uk
Yn darparu manylion am unrhyw lyfrgelloedd teganau a hamdden yn eich ardal chi
Listening Books, 12 Lant Street, Llundain, SE1 1QH
Ffôn: 020 7407 9417 e-mail: info@listening-books.org.uk
Gwefan: http://www.listening-books.org.uk
Yn darparu llyfrgell llyfrau llafar i'r sawl sy'n ei chael hi'n anodd darllen.

Bikedock, 75 - 85 Ravenhill Road, Belfast, BT6 8DQ
Ffôn: 0845 062 5500 e-mail: info@bikedock.com
Gwefan: http://www.bikedock.com
Yn gallu darparu beiciau wedi'u haddasu a helmedau beic mawr
Gellid cael hyd i ragor o wybodaeth ar y daflen ffeithiau
'*Holidays, play and leisure'.* Cysylltwch a'n Llinell Gymorth (0808
808 3555) i dderbyn copi.
Mae'r Gronfa Deulu yn cynnig grantiau i deuluoedd sy'n gofalu am blentyn sy'n ddifrifol anabl ac ar incwm isel. Fydd y Gronfa ddim yn helpu yn y meysydd hynny ystyrir yn gyfrifoldeb yr awdurdod lleol neu'r gwasanaethau lleol.

Cymdeithas Swyddogion Elusennol, Unicorn House,
Station Close, Potters Bar EN6 3JW Ffôn: 01707 651 777
Gwefan ://aco.uk.net
Gall Cymdeithas y Swyddogion Elusennol(CSE) ddynodi elusennau perthnasol eraill allai eich helpu .
Gall Llinell Gymorth Cyswllt Teulu hefyd ddarparu gwybodaeth am ymddiriedolaethau cyflwyno grantiau.

Offer ail law

Mae'r Gymdeithas Anafiadau'r Asgwrn Cefn a''r Sefydliad Byw Anabl yn cynhyrchu taflenni ffeithiau defnyddiol ynghylch prynu a gwerthu offer ail law. Mae'r,taflenni'n cynnwys manylion cyhoeddiadau i hysbysebu ynddynt a gwybodaeth am fudiadau defnyddiol eraill. Mae'r Gymdeithas Anafiadau'r Asgwrn Cefn hefyd yn rhestru unigolion sy'n delio mewn cadeiriau olwyn ail law a cherbydau sydd wedi'u haddasu.

Cymdeithas Anafiadau'r Asgwrn Cefn , SIA House, 2 Trueman Place, Oldbrook, Milton Keynes, MK6 2HH
FFon: 0800 980 0501 (9.30-4.30, Ar Gau 1-2)
ebost: sia@spinal.co.uk
Gwefan: http://www.spinal.co.uk
Sefydliad Byw yr Anabl – gweler 'Seiliau pellach o help a chyngor"(gweler tudalen 10)
Cofrestr Offer Anabl, 4 Chatterton Road,
Bryste BS37 4BJ Ffôn: 01454 318818
ebost: disabreg@blueyonder.co.uk
Gwefan: http://www.disabilityequipment.org.uk
Mae'r Gofrestr Offer Anabl yn rhestru eitemau ail law sydd eu hangen ac sydd ar werth. Mae'r gofrestr ar gael ar y we, ond gall teuluoedd danysgrifio I dderbyn eu cylchgrawn ar sail misol.

.Gweler hefyd 'Gwefanau defnyddiol eraill" (tudalen 10)

Cymorth Ariannol

Elusennau a chronfeydd lles

Family Fund, Unit 4, Alpha Court, Monks Cross Drive,
Huntington, Efrog, YO32 9WN
Ffôn: 0845 130 45 42
Gwefan: http://www.familyfund.org.uk

Budd-daliadau a chredydau treth

Yn dilyn fe geir crynodeb o rai o'r prif fudd-daliadau a chredydau treth allai fod ar gael ar gyfer teuluoedd gyda phlant anabl.

Lwfans Anabledd Byw Budd-dâl di-dreth sydd ar gael ar gyfer pobl anabl. Mae'n cynnwys swm ar gyfer plant sydd ag anghenion gofal ychwanegol a swm ar gyfer plant sydd â phroblemau symundedd.

Lwfans Gofalwyr: Caiff ei dalu i hawlwyr sy'n darparu o leiaf 35 awr o ofal pob wythnos i unigolyn sy'n derbyn y gyfradd ganolog neu uchel o'r elfen ofal DLA. Ar ben hynny, ni ddylai'r gofalwr fod yn ennill mwy na £77 pob wythnos (wedi costau), ac ni ddylent fod yn fyfyriwr amser llawn.

Credyd Treth Plentyn: Credyd Treth prawf modd ar gyfer unigolion sydd â phlant dibynnol.

Credyd Treth Gwaith : Ar gael i ychwanegu at gyflogau gweithwyr.

Cymorth Cymhorthdal Incwm: Budd-dâl yn gysylltiedig ag incwm sydd ar gael i bobl sy'n methu gweithio, neu'r rhai hynny sy'n gweithio llai o oriau ogerwydd salwch neu gyfrifoldebau gofalu.

Taliadau Cronfa Gymdeithasol: Yn cael ei weinyddu gan yr Adran Waith a Phensiynau (DWP), ac ar gael yn bennaf i hawlwyr sy'n derbyn Cymorthdal Incwm . Mae cymorth ar gael ar ffurf benthyciad di-log neu grant. Mae rhai grantiau a benthyciadau yn fater o ddisgresiwn ac mae'r gronfa yn un cyfyngedig- bydd dyfarniad yn dibynnu ar y galw lleol a blaenoriaethau. Felly, bydd pob cais ddim yn llwyddo. Bydd rhaid i grantiau eraill gael eu talu os ydach yn ateb y gofynion cymhwyso, er enghraifft Grantiau Mamolaeth Cychwyn Cadarn.

Treth Cyngor: mae help ar gael ar gyfer teuluoedd ar incwm isel drwy gyfrwng Budd-daliadau Treth Cyngor. Yn ogystal. mae'n bosib derbyn gostyngiad ar eich treth cyngor ble fo rhai addasiadu wedi digwydd yn y tŷ neu ble ceir defnyddiwr cadair olwyn yn y tŷ. Gellid hawlio disgownt hefyd ble fo rhai aelodau o'r cartref yn cael eu trin yn "anweladwy". Er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn popeth sy'n ddyledus ichi, cysylltwch â'r gwasanaeth cynghori lleol er mwyn edrych yn fanwl ar yr holl fudd-daliadau. Gall eich canolfan gynghori agosaf hefyd ddarparu gwybodaeth am fudd-daliadau a gwybodaeth am ymddiriedolaethau lleol. Ar gyfer gwybodaeth am fudd-daliadau ac asiantaethau cynghori lleol ffoniwch linell gymorth Cyswllt Teulu. Mae ein taflenni ffeithiau rhad ac am ddim " Budd-*daliadau, Credydau Treth a chymorth ariannol eraill "* a'r *"Arweiniad i Gredydau Treth*" yn rhoi rhagor o gyngor manwl. Cysylltwch â'n llinell gymorth am gopïau.

Treth ar Werth (TAW)

Does dim rhaid talu TAW ar rai cymhorthion ac offer ar gyfer pobl anabl. Mae cymhorthion yn berthnasol fan hyn os yr ydynt wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer eu defnyddio gan berson anabl. Mae'n bosib bydd y cyflenwr angen ffurflen ddatganiad sy'n cadarnhau fod yr offer dan sylw i'w ddefnyddio gan berson anabl fel y'i disgrifir o dan y Ddeddf TAW 1994. Does dim ffurflen swyddogol ar gyfer datganiad, ond ceir samplau yn y Rhybudd TAW 701/7- Rhyddhad rhag TAW ar gyfer Pobl ag Anableddau. Gellid lawrlwytho'r ffurflen hon o Wefan Tollau Tramor a Chartref:

Web: http://www.hmce.gov.uk/forms/notices/701-07.htm

Fel arall, cysywlltwch â'n llinell gymorth am ragor o gyngor. Noder: Fydd y rhyddhad hwn ddim yn berthnasol yn hanes nwyddau dibenion cyffredinol sydd o fudd i bobl anabl. Er enghraifft, drws garej sy'n agor yn electroneg: gallai fod o fudd i berson anbabl neu deulu gyda phlentyn anabl;. ond gan nad ydi'r ddyfais wedi ei dylunio'n benodol ar gyfer ei defnyddio gan berson anabl, ni cheir rhyddhad rhag TAW. Gwelir y rheolau o fewn y Rhybudd TAW y soniwyd amdano uchod.

Gallwch hefyd gysylltu â Gwasanaeth Cynghori Treth a Thollau Cenedlaethol
ar 0845 010 9000, sydd ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Gwneer 8.00 I 8.00 y nos. Os hoffech siarad â rhywun yn Gymraeg, ffonwich o Ddydd Llun i Ddydd Gwneer 8.00 y bore i 6.00 yr hwyr.

Mae gwasanaeth Testun ffôn ar gael ar 0845 000 0200, o Ddydd LLun i Ddydd Gwener o 8.00 y bore i 8.00 yr hwyr.

Cyflenwyr Masnachol

Mae sawl cyflenwr masnachol sy'n darparu cymhorthion ac offer ac yn gweithredu gwasanaeth archebion post. Ohewrydd ystod y rhain, mae'n bwysig ceisio cyngor annibynnol. Dyma restr o rai o'r cyflewnwyr hyn. Nodwch na ddylid credu bod eu cynnrch yn cael eu cymeradwyo gan Cyswllt Teulu.

Chailey Heritage Clinical Services, Beggars Wood Road, North Chailey, Lewes, BN8 4JN Ffôn: 01825 722112
DCS Joncare Ltd, 4 Radley Road Industrial Estate, Abingdon, OX14 3RY Ffôn: 01235 523353
e-bost: management@dcsjoncare.freeserve.com
Gwefan: http://www.dcsjoncare.com
Lisclare Ltd, Unit 4 - 5, Montgomery Business Park, Montgomery Road, Belfast BT6 6AD
Ffôn: 028 9079 4000 Gwefan: http://www.lisclare.com
ebost: services@lisclare.com
Nottingham Rehab Supplies, Novara House, Excelsior Road, Ashby Park, Ashby de la Zouch LE65 1NG
Ffôn: 0845 120 4522 Gwefan: http://www.nrs-uk.co.uk

Offer chwarae

tfh Special Needs Ltd, 5-7 Severnside Business Park, Stourport-on-Severn, DY13 9HB Ffôn: 01299 827820
e-mail: tfh@tfhuk.com Gwefan: http://www.tfhuk.com/caf.asp
Mae TFH yn rhoi 10% o'r arian a wneir ganddynt drwy'r cyswllt hwn i Gyswllt Teulu
Spacekraft Ltd, Titus House, 29 Saltaire Road, Shipley BD18 3HH Ffô: 01274 581007
e-bost: enquiries@spacekraft.co.uk
Gwefan: http://www.spacekraft.co.uk
Rompa International, Goyt Side Road, Chesterfield S40 2PH
Ffôn: 0800 056 2323 e-bost: sales@rompa.com
Gwefan: http://www.rompa.com
Mike Ayres & Co Ltd, The Paddock, Dore, Sheffield S17 3LD Ffôn: 0114 235 6880
e-bost: enquiry@mike-ayres.co.uk
Gwefan: http://www.mike-ayres.co.uk
Hope Educational, Hyde Buildings, Ashton Road, Hyde SK14 4SH Ffôn: 0161 367 2000
e-bost: orders@hope-education.co.uk
Gwefan: http://www.hope-education.co.uk
Galt Educational, Johnsonbrook Road, Hyde SK14 4QT
Ffôn: 0845 120 3005 e-bost orders@galt-educational.co.uk

Hawliau Cwsmer

Wrth brynu nwyddau mae gennych hawl i ddisgwyl safonau penodol. Mae hyn yn berthnasol wrth brynu wyneb yn wyneb neu drwy'r post. Os oes rhywbeth o'i le ac/neu rydach chi'n anfodlon efo'r gwasanaeth neu'r nwyddau, yna dylech yn gyntaf oll gysylltu â'r cyflenwr. Os metha hyn, yna dylech geisio cyngor arbenigol. Mae'n bwysig gwneud hyn gan ei bod yn bosib y bydd eich hawliau'n dibynnu ar pryd yn union y digwyddodd y prynu a'r gwerthu- fe allech ddarganfod eich bod y tu hwnt i amser. Gall eich gwasanethau cyngor lleol, neu eich gwasanaeth safonau

masnach ddarparu rhagor o gyngor. Mae gwybodaeth ar eich hawliau, sydd wedi ei gynhyrchu gan Safonau Masnach Canolog, sy'n adran o'r llywodraeth,y gellid ei lawrlwytho

Gwefan: http://www.tradingstandards.gov.uk/index.cfm

Mae safle ar wahân ar gyfer cwsmeriaid yng Ngogledd Iwerddon lle gellid derbyn mwy o wybodaeth

Gwefan: http://tinyurl.co.uk/8jrm
Consumer Direct
Ffôn: 0845 404 05 06
Gwefan: http://www.consumerdirect.gov.uk

Addasu eich cartref

Os ydach chi angen addasu eich cartref i'w wneud o'n haws ichi neu eich plentyn ymdopi, yna fe all eich bod yn gymwys i dderbyn Grant Adnoddau Anabl (neu Grant Gwella'r Cartef os ydach yn byw yn yr Alban). Awgrymir y dylai unrhyw un sy'n ystyried ymgeisio am grant chwilio am ragor o gefnogaeth a chyngor gan fod y system yn reit gymhleth.

Grantiau Adnoddau Anabl (Cymru a Lloegr)

Er mwyn bod yn gynwys ar gyfer Grant Adnoddau Anabl(DRG), mae'n rhaid eich bod y n bechennog ty, yn denant(boed preifat, awdurdod lleol neu gymdeithas dai), neu'n landlord efo tenant anabl. Gall y grant helpu gyda chost gwaith megis codi ardaloedd chwarae diogel, gosod lifft-cadair, addasu system oleuo neu wresogi, neu adeiladu adnodd newydd ar gyfer yr ystafell ymolchi. Beth bynnag fo'r gwaith arfaethedig, bydd rhaid cael cytundeb eu bod yn " Angenrheidiol a phriodol" o ran ateb anghenion y person anabl. Hefyd, mae'n rhaid i'r gwaith fod yn " rhesymol ac ymarferol" a bydd hyn yn ystyried oedran a chyflwr yr eiddo dan sylw.

Cafodd y prawf modd ar rieni plant anabl ar gyfer(DRG) eu dileu ar gyfer teuloedd yng Nghymru o Fedi 30ain 2005. Mae'r llywodraeth newydd gyhoedi ei bwriad i ddileu'r prawf modd ar gyfer rhieni plant a phobl ifanbc anabl yn Lloegr o Ragfyr 2005.

Ar hyn o bryd a hyd nes y caiff y prawf modd ei ddileu, ystyrir adnoddau teuluoedd wrth asesu faint o grantiau sy'n daladwy. Am fwy o wybodaeth ffoniwch Llinell Gymorth Cyswllt Teulu. Os mai bwriad y gwaith yw helpu oedolyn anabl yn yn tŷ- gan gynnwys person ifanc sydd ddim bellach yn berson dibynnol at ddibenion budd-dâl (dros 16, neu dros 19 os yn parhau mewn addysg amser llawn)- incwm a chynilion yr oedolyn anabl neu'r person ifanc a gaiff eu haseu.

Daeth y cyhoeddiad hwn yn dilyn ,cyhoeddi adroddiad annibynnol ar y DRG, a gafodd ei gomisynu gan y llywodraeth. Mae adolygiad o'r cynllun cyffredinol ar waith a gellid cael mwy o wybodaeth am y cyhoeddiad diweddar ac fe ellir gweld yr adolygiad ar wefan Swydda Y Dirprwy Brif Weinidog

Gwefan: http://www.odpm.gov.uk

Dyfernir grantiau gorfodol ble ystyrir y gwaith yn hanfodol o ran creu gwell mynediad a symudedd o gwmpas y cartref ac ar gyfer adnoddau hanfodol oddi mewn i'r cartref.Gall y grant hefyd gynnwys cosatau adeiladu adnoddau hanfodol ble fo angen hynny. Yr uchafswm grant sy'n daladwy ydi £25,000 yn Lloegr a £30,000 yng Nghymru.
Noder: os yw'r costau yn mynd heibio'r terfyn osodwyd, mae gan y cyngor y disgresiwn i roi grant ychwanegol er mwyn ateb costau llawn y gwaith gorfodol .

Mae gan Awdurodau Lleol bellach bwerau i ddefnddio disgresiwn newydd ar gyfer darparu cymorth ariannol,a chymorth arall ar gyfer gwelliannau neu atgyweiriadau i'r gartref.Gall hyn ymddangos ar ffurf grant, benthyciad, llafur, adnoddau neu gyngor.

Gallent gynnwys amwynderau safonol (megis bath, cawod, sinc, basn ymolchi neu doilet) sydd ei angen gan y person anabl.Fel rheol dim ond grantiau at waith sy'n costio,hyd at £20,000 all cynghorau lleol eu rhoi , er fe allent apelio at Lywodraeth yr Alban er mwyn mynd heibio'r trothwy hwnnw os oes rhesymau dros wneud hynny.

Bydd y maint y grant yn dibynnu ar brawf modd a wneir ar eich incwm. Ar gyfer rhai mathau o waith(gan gynnwys addasiadau er mwyn gwneud eiddo yn briodol ar gyfer person anabl), mae isafaswm grant o 50% ar gael, waeth be fo'ch incwm. Os oes gennych hawl i derbyn mwy na 50% o dan y prawf moddion, yna fe gewch chi'r ffigwr uwch. Tydi'r rhan fwyaf o fudd-daliadau'r wladwriaeth ddim yn cael eu hystyried fel incwm. Dylai unrhyw un sy'n derbyn cymorth incwm, lwfans chwilio am waiuth seiliedig ar incwm, neu'n derbyn yr elfen warentedig o Gredyd Pensiwn gael eu pasportio i dderbyn grant 100%.

Ni ddylech ddechrau gweithio ar unrhyw addasiadu tan i'r cais gael ei gymeradwyo yn ysgrifenedig- neu fel arall ni fyddwch yn gymwys i dderbyn grant. Bydd y Cyngor lleol yn rhoi ffurflen gais i chi ac yn rhoi gwybod pa wybodaeth sydd ei angen arnyn nhw er mwyn prosesu'r cais., Fe all hyn gynnwys gwybdoaeth am incwm a chynilion.

Grantiau Adnoddau ar gyfer yr Anabl (Gogledd Iwerddon)

Mae'r system ar gyfer derbyn help gydag addasiadau yng Ngogledd Iweddion yn debyg i'r system sydd yn bodoli yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, ers Chwefror 16 2004, **dydi rhieni neu bobl sydd â chyfrifoldebau rhieni ddim yn cael prawf modd ar gyfer Grant Adnoddau ar gyfer yr Anabl**.Golyga hyn na fydd amgylchiadau ariannol teuluoedd yn cael eu hystyred, Ni ddylid gofyn ichi am unrhyw incwm neu daliadau.

Yr uchafswm grant sydd ar gael ydi £25,000 ac fe fydd rhaid i Therapydd Galwedigaethol argymell fod yr addasiasau yn *"angenrheidiol a phriodol"* ar gyfer y plentyn anabl.

Noder os gawsoch grant ynghynt a bu'n rhaid ichi gyfrannu at gostau'r gwaith o dan yr hen system, ni chewch eich cyfraniad yn ol. Gall teuluoedd a geisiodd ynghynt, ond sydd angen mwy o help o oherwydd newid yn eu hanghenion, ymgeisio heb brawf modd y tro hwn

Dim ond ar gyfer perchnogion cartref neu rheini sy'n rhentu yn y sector breifat y mae'r newidiadau hyn yn berthasol. Mae trefniadau gwahanol yn bodoli ar gyfer teuluoedd sy'n byw mewn tai Sector Gyhoeddus, sef tenantiaid Gweithgor Tai neu Gymdeithas Dai. Dylai ymgeisywr yng Ngogledd iwerddon gysylltu â'u swyddfa Gweithgor Tai lleol,ar gyfer Ffurflen Ymholiad Cychwynnol.

Grantiau Gwelliannau cartref (Yr Alban)

Mae grantiau ar gael gan yr awdurod tai er mwyn helpu gydag addasiadau, ond dim ond os ydych yn berchennog cartref neu'n denant preifat. Dylai tenantiaid Cyngor a thenatiaid Cartrefi'r Alban ofyn i'w landlordiaid am gymorth i addasu eu cartrefi. Dylai Cymdeithasau Tai drefnu i'r gwaith hyn ddigwydd yn hanes y tenantiaid hynny sydd wedi angen yr addasiadau yn ôl yr asesiad a wnaed.

Cyn y gellid ystyried cynnig unrhyw gymorth, bydd raid i'r adran gwasanaethau cymdeithasol wneud asesiad o anghenion y person anabl er mwyn gweld a ydi'r gwaith yn angenrheidiol, Dylid nodi hefyd y gellid dyfarnu grantiau tuag at waith i eiddo y bwriada'r person anabl symud iddo. Yn y rhan fwyaf o achosion, gall y Cyngor benderfynu oes angen dyfarnu'r grant ai peidio. Fodd bynnag, mae grantiau gorfodol ar gael mewn rhai amgylchiadau, e.e gosod deunydd ychwanegol.

Herio penderfynaidau

Os ydach chi'n anfodlon ynghylch canlyniad cais am grant neu ynghylch faint o amser a gymrwyd i gyrraedd penderfyniad, yna chwiliwch am ragor o gyngor. Mae dulliau o herio penderfyniadau yn cynnwys siarad efo'r cynghorydd lleol, cwyno gan ddefnyddio gweithdrefn gwyno yr awdurdod lleol neu ofyn i'r Ombwdsman Llywodaerth Leol i ymchwiio i'r mater. Gall swyddfa Cyngor ar Bopeth lleol neu asiantaeth Gwelliannau Cartref lleol(Gweler "derbyn mwy o help a chyngor" isod) gynnig mwy o gyngor. Hefyd gallwch gysylltu â'ch awdurodd tai lleol er mwyn darganfod sut y mae'r pwerau hyn yn berthnasol yn eich ardal chi. Mae'n bosib derbyn ffurflenni cais gan adran dai neu adran iechyd yr amgylchedd lleol. Unwaith y mae cais wedi'i gyflwyno., bydd rhaid i'r Cyngor gyrraedd penderfyniad o fewn 6 mis. Wrth gyrraedd penderfyniad terfynol mae gofyn l;r adran dai gydlynu â'r adarn gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y gwaith yn " angenrheidiol a phriodol".

Mae'n bwysig nodi na fydd ceisiadau am waith sydd eisoes wedi ei gychwyn yn cael eu hystyried.

Derbyn rhagor o gymorth a chyngor

Mae asiantaethau gwella cartrefi a elwir weithiau yn "asiantaethau gofal thrwsio" yn bodoli ar gyfer helpu perchnogion tai neu denantiaid preifat i wella eu hamodau byw. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor technegol ac ariannol, yn ogystal â chynnig help ac arweiniad wrth geisio am grantiau. Gallent hefyd ddynodi ffynonellau eraill o gymorth ariannol os nad ydi'r grant yn ddigonol. Ar gyfer gwybodaeth am asiantaethau lleol yn **Lloegr**, cysylltwch â Foundations ar

01457 891 909. Ar gyfer yr Alban, cysylltwch â Gofal a Thrwsio'r Alban ar 0141 221 9879.

Ar gyfer **Cymru,**
Cysylltwch â Gofal a Thrwsio ar 029 2057 6286.

Os ydach chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon, dylai prosiect anabledd lleol eich helpu. Gall teuluoedd yng Ngogledd Iwerddon hefyd ymweld â gwefan Gweithgor Tai Gogledd Iwerddon, ble bo modd lawrlwytho nifer o gyhoeddiadau defnyddiol.

Web: http://www.nihe.gov.uk/publications

Un ohonynyt yw'r llyfryn'*Addasu eich tŷ eich hun, Arweiniad Cam wrth Gam ar gyfer Pobl ag Anableddau"* . gallwch hefyd gysylltu â'n swyddfa yng Ngogledd Iwerddon.
Ffôn: 028 9262 7552
e-bost: nireland@cafamily.org.uk.

Ar gyfer teuluoedd yn **yr Alban**, gellid cael hyd i fwy o wybodaeth manwl yn yr arweiniad "Grantiau Tai".

Ffynonellau help a chyngor ychwanegol

Sefydlaid Byw Anabl, 380-384 Harrow Road,
London W9 2HU Ffôn: 0845 130 9177 Helpline
(Llu-Gwe, 10-1) Ffôn Testun: 020 7432 8009
Ffôn 020 7289 6111 e-bost: info@dlf.org.uk
Gwefan: http://www.dlf.org.uk
Mae'r Sefydiad Byw Anabl (SBA) yn cynhyrchu ystod eang o daflenni ffeithiau o ran dewis offer byw pob dydd ar gyfer plant.Mae hyn yn cynnwys Cyngor ar offer ar gyfer plant sydd angen help i wisgo, gofal personol(Toiled, bathio ac ymolchi) a deunyddiau gwlâu. Gellir lawrlwytho'r taflenni ffeithiau hyn o'u gwefan neu gallwch ffonio llinell gymorth offer ble y gellid derbyn gwybodaeth ddiweddaraf am gynhyrchion a chyflenwyr)

Cyngor Canolfannau Byw Anabl (CCBA,
Redbank House, 4 St Chads Street, Manceinion M8 8QA
Ffôn: 0870 770 2866 e-bost: dlcc@dlcc.org.uk
Gwefan: http://www.dlcc.org.uk
Mae'r canolfannau Byw Anabl (CBA) yn arddangos ystod eang o gynnyrch sy'n galluogi pobl I weld a rhoi cynnig ar gynnyrch allai eu siwtio, maent hefyd yn cynnig cyngot annibynol rhad ac am ddim ynghylch beth sydd ar gael, costau a chytlenwyr a gwybodaeth am eich canolfan agosaf.

Emap Health Care, Ffôn: 020 7874 0200
Gwefan: http://www.independentlivingevents.co.uk
Yn trefnu nifer o arddangosfeydd ble y gallwch edrych ar gymorthyddion ac offer ar gyfer pobl anabl megis arddangosfeydd gan Naidex, Independent Living London, and Independent Living Scotland

REMAP – Cymorth Technegol ar gyfer Pobl Anabl,
Hazeldene, Ightham, Sevenoaks TN15 9AD
Ffôn: 0845 1300 456 e-mail: info@remap.org.uk
Gwefan: http://www.remap.org.uk
Mae REMAP yn dylunio a chynhyrchu cymhorthion ac offer ar gyfer pobl anabl ble nad oes unrhywbeth addas ar gael yn fasnachol neu drwy wasanaethau iechyd a chymdeithasol

Ricability, 30 Angel Gate, City Road, London EC1V 2PT
Ffôn: 020 7427 2460 Textphone: 020 7427 2469
e-bost: mail@ricability.org.uk
Gwefan: http://www.ricability.org.uk
Mae Ricability yn darparu arweiniad cwsmer i bobl anabl, ac yn profi ac yn gwerhuso cynhyrchion ar gyfer pobl anabl. Gellid derbyn arweniad drwy'r post neu drwy eu gwefan.

Abilitynet, PO Box 94, Warwick CV34 5WS
Ffôn: 0800 269545 Llinell Gymorth Ffon: 01926 312847
e-bost: enquiries@abilitynet.co.uk
Gwefan: http://www.abilitynet.co.uk
Mae Abilitynet yn cynnig cyngor a gwybodaeth, hyfforddiant am gyflenwyr cyfrifiadurol a meddalwedd ar gyfer plant ac oedolion anabl. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar ffynnonellau cymorth ariannol gan ymddiriedolaethau elusennol.

Y Groes Goch Brydeinig, 9 Grosvenor Crescent, Llundain
SW1X 7EJ Tel. 020 7235 5454
Ffôn: 020 7201 5142 (Community Department)

Gwefan: http://www.redcross.org.uk

Mae gan y Groes Goch Brydeinig rwydwaith o ganolfannau benthyca meddygol all fenthyca cymhorthion ac offer gan gynwys cadeiriau olwyn.Mae manylion am y ganolfan agosaf atoch ar gael gan eich cangen Croes Goch leol(gweler eich cyfeirlyfr ffôn lleol)

Gwefannau defnyddiol eraill

Disabilitynet
Gwefan: http://www.disabilitynet.co.uk
Youreable
gwefan: http://www.youreable.com
Ebay
Gwefan: http://www.ebay.co.uk

Cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn aml

Mi wnes i brynu trike ar gyfer fy mab anabl a dywedodd y cyflewnr bod rhaid imi hawlio'r TAW yn ol. Sut allai wneud hyn?
Yn gyntaf oll, mae angen ichi sefydlu a ddylech dalu TAW ar y trike ai peidio(gweler TAW ar dudalen 7). Er mwyn atgyfnerthu'r cyngor a roddwyd uchod, bydd dim rhyddhad yn hanes nwyddau dibenion cyffredionol sydd o fudd i bobl anabl. Felly, os nad ydy'r trike dan sylw wedi'I gynllunio'n arbennig ar gyfer ei ddefnyddio gan berson anabl, bydd rhaid talu TAW.. Dylech hefyd fod yn ymwybodol nad ydi ad-daliadau TAW yn cael ei cyflwyno i'r cwsmer. Dylai'r cyflenwr ddynodi a yw'r eitem dan sylw yn gymwys ar gyfer TAW. Gall Gwasanaeth Cenedlaethol y Tollau gynnig mwy o gyngor ynghylch eich hawliau.

Gyda help gan y Cynllun Grantiau Adnoddau l'r Anabl(Lwfans Person Anabl yng Ngogledd lwerddon), rwyf newydd addasu un o f'ystafelloedd yn ystafell chwarae arbennig ar gyfer fy mhlentyn anabl. Rwyf wedi derbyn cyngor y gallwn gael peth cymorth efo fy Nhreth Cyngor oherwydd hyn. A yw hyn yn wir?
Mae hyn yn bosib o dan y Cynllun Gostyngiad Anabledd. Ble fo eiddo wedi'i addasu mewn ffordd arbennig ar gyfer anghenion person anabl, yna gellid gostwng" band" eich eiddo. Po isaf yw'r band isa'n byd fydd eich bil. Yn yr achos hwn rydach yn gymwys oherwydd fod gennych ystafell sy'n cael ei ddefnyddio'n bennaf gan berson anabl. Noder os yw'r tŷ ym Mand A, yna gallwch dderbyn hyd at 1/6 o ostyngiad ar eich bil, ac fe all y lleihad hwn gael ei ôl-ddyddio. Dim ond hawl i gael gostyngiad wedi ei ôl-ddyddio I Ebrill 1 2000 sydd gan eiddo sydd yn y band isaf yn barod (AA)

Dwi newydd holi am ymgeisio am Grant Adnoddau ar gyfer yr Anabl ac mae'r Therapydd Galwedigaethol wedi dweud wrtha'i bod yna restr aros ar gyfer yr asesaid. Gallai misoedd fynd heibio cyn y caf fy ngweld gan yr OT a blynyddoedd wedyn cyn y caf grant. Beth ydi fy hawliau fan hyn?
Mae'r asesiad gan yr OT yn ran allweddol o'r broses ymgeisio am grant. Yn dilyn argymhelliad yr OT, mae cais ffurfiol yn aml yn cael ei gyflwyno i'r,Awdurdod Tai. Fodd bynnag, gallwch barhau I wneud cais ffurfiol i'r awdurdod tai am grant cyn asesiad yr OT. Gall hyn gyflymu y broses gan fod rhaid i'r awdurdod wedyn wneud penderfyniad o fewn 6 mis iddynt derbyn y cais.Oddi mewn I'r cyfnod hwnnw, gobeithio y bydd yr OT yn ymweld â'ch cartref i wneud yr aesiad.
Os nad ydach yn derbyn penderfyniad o fewn y cyfyngiad amser hwnnw, yna dylech ysgrifennu atynt yn gofyn pam nad ydach wedli clywed yr un dim a gofyn am benderfyniad. Os na ddaw dim o hynny, yna dylech geisio cyngor ar opsiynau eraill megis gwneud cŵyn gan ddefnyddio proses gwyno'r awdurod lleol neu gwyno at yr ombwdsman llywodraeth leol. Gweler "addasu eich cartref eich hun" (tudalen 8) am fwy o wybodaeth.

Dwi wedi prynu cadair olwyn ail law gan fasnachwr ond mi ddywedodd o wrtha'i nad oes gen i'r un hawliau â phetawn i wedi ei brynu'n newydd ac ni fydd modd imi ei ddychwelyd os oes nam arno. Ydi hyn yn wir?

Na, mae gennych yr un hawliau â phetai'r gadair wedi ei phrynu fel newydd ac mae'n ofynnol i'r masnachwr son am unrhyw namau cyn ichi ei dalu. Os ydi'r namau wedi eu crybwyll, yna fe all hynny effeithio ar eich hawliau. Cysylltwch â'ch gwasanaeth cynghori neu safonau masnach lleol am fwy o wybodaeth. Gweler "Hawliau Cwsmer"(Tudalen 8)

Cyhoeddwyd gan: Cyswllt Teulu, 209-211 City Road, Llundain EC1V 1JN Tel. (020) 7608 8700
Elusen Gofrestredig Rhif . 284912
© Cyswllt Teulu 2005
Ysgrifennwyd gan Jesslyn Parkes
Dyluniwyd gan Dean Casswell. Argraffwyd gan tfh Special Needs Ltd. Mae Cyswllt Teulu am ddiolch i tfh am eu cefnogaeth ariannol wrth greu'r daflen ffeithiau hon.Er fod gofal mawr wedi ei ddangos wrth ddylunio a pharatoi'r daflen hon er mwyn sicrhau cywirdeb, ni all Cyswllt Teulu fod yn gyfrifol am unrhwy gamgymeriadau neu elfennau sydd wedi eu hepgor. Mae Cyswllt Teulu yn ymdrechu i gynnwys manylion am gyflenwyr offer dibynadawy. Fodd bynnag, dylai rhieni fodloni eu hunain bod unrhyw offer penodol yn briodol ar gyfer eu plentyn. Os oes ganddynt unrhywy amheuaeth dylid ceisio cyngor meddygol cyn prynu yr un dim.